# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 13 Gorffennaf 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad o ran gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Addysg (y sesiwn olaf) am gyfnod Pontio pobl ifanc anabl? (WAQ50175)

**Y Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg (Carwyn Jones):** Cyhoeddwyd yr adroddiad ar gam terfynol adolygiad y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o AAA a oedd yn canolbwyntio ar bontio ac ymateb cychwynnol Llywodraeth y Cynulliad ym mis Mawrth. Derbyniwyd 30 o'r 47 o argymhellion a derbyniwyd 27 mewn egwyddor neu yn rhannol.

Mae cynllun gweithredu yn cael ei baratoi i roi'r argymhellion ar waith. Bydd hwn yn defnyddio profiad y Grŵp Gweithredu ar Bontio sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl er mwyn amlygu'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio o ran dod yn oedolyn; ac astudiaeth gan Ganolfan Cymru Anableddau Dysgu 'Transition from Schools - What works?'.

Byddwn yn ymateb yn llawn i'r pwyllgor craffu perthnasol o fewn 12 mis i'n hymateb cychwynnol i adroddiad y pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau diogelwch gweithwyr iechyd yn y gymuned? (WAQ50204)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu achos busnes i ddarparu System Rhybuddio Gweithwyr Unigol i GIG Cymru. Pan fydd staff sy'n gweithio yn y gymuned mewn helynt bydd ganddynt ffôn symudol wedi'i gysylltu â system wedi'i hawtomeiddio a fydd yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i ddod o hyd iddynt.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch diogelwch gweithwyr iechyd yn y gymuned? (WAQ50205)

**Edwina Hart:** Cyfarfum â Chadeiryddion Ymddiriedolaethau'r GIG ar 14 Mehefin a chodais y mater o ddim goddefgarwch tuag at drais yn erbyn staff y GIG. Byddaf yn cyhoeddi gofynion monitro a chyflwyno adroddiadau manwl i sicrhau y rhoddir y flaenoriaeth uchaf i'r broblem o drais ac ymddygiad ymosodgar.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog egluro pam nad yw deintyddion y GIG wedi derbyn cam cyntaf eu dyfarniad tâl diwethaf ac a wnaiff hi ddatganiad? (WAQ50206)

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am pryd y gall deintyddion y GIG ddisgwyl cam cyntaf eu dyfarniad tâl diweddaraf? (WAQ50212)

**Edwina Hart:** Bydd deintyddion yn cael eu dyfarniad cyflog cam cyntaf ym mis Awst.

Mae gwahaniaethau yn y modd y darperir gwasanaethau deintyddol yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr ac mae angen i ni sicrhau y caiff y gwahaniaethau hyn eu hadlewyrchu yn y llythyr cyflog a gaiff ei anfon at gyflogwyr yng Nghymru.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu swyddi radiograffyddion ymgynghorol yng Nghymru? (WAQ50219)

**Edwina Hart:** Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi wedi sefydlu rhaglen arweinyddiaeth a datblygu ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a elwir yn 'Pobl Broffesiynol Flaenllaw'. Byddai hyn yn paratoi radiograffyddion i ymgymryd â rolau arweiniol proffesiynol a ragwelir ar gyfer gweithwyr proffesiynol ymgynghorol perthynol i iechyd.

Bydd cyflogwyr yn datblygu rolau radiograffyddion ymgynghorol lle bo'n briodol, gan ystyried datblygiad gwasanaeth a gweithlu a buddiannau i gleifion.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Irene James (Islwyn):** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei wneud i dynnu sylw at beryglon gwenwyn Carbon Monocsid yn y cartref? (WAQ50221)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhan o Grŵp Gweinidogol ymwybyddiaeth o ddiogelwch nwy a charbon monocsid (CO) y DU a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ar 14eg Mehefin, ac roeddwn yn bresennol. Cytunodd y Grŵp i gefnogi dull gweithredu cydgysylltiedig i godi ymwybyddiaeth a lleihau nifer y marwolaethau a salwch a achosir o ganlyniad i wenwyn CO. Mae hefyd yn bwriadu cwrdd â chynrychiolwyr o'r diwydiant nwy a phobl eraill yn yr hydref i adolygu eu cynnydd o ran cyflwyno rhaglen weithredu o'r newydd ar godi ymwybyddiaeth o CO.

Ym mis Rhagfyr 2006, rhoddodd Prif Swyddog Meddygol Cymru gyngor i'r holl feddygon, deintyddion a fferyllwyr ar beryglon a ffynonellau carbon monocsid yn ogystal â rhoi cyngor ar ddiagnosis ac arwyddion clinigol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig

**Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau sy'n cael eu cymryd i wella mynediad at yr arfordir a chefn gwlad yng Nghymru? (WAQ50188)

**Y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig (Jane Davidson):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwrw ymlaen â rhaglen gynhwysfawr, ar y cyd â'n partneriaid allweddol, i wella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad gwych Cymru, gan gynnwys gwell mynediad i'r arfordir ac i afonydd a llynnoedd. Elfen allweddol o hyn yw gwell mynediad i'r anabl a grwpiau eraill sydd ag anghenion penodol.

Dylai'r £1.5 miliwn rydym wedi ei ddyrannu eleni ar gyfer y rhaglen gwella mynediad i'r arfordir sicrhau dechrau gwych i'r gwaith hwnnw. Mae holl awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau arfordirol lleol bellach wedi cael cyfran o'r arian hwn, a fydd yn cefnogi amrywiaeth o welliannau mynediad i'r arfordir yn ogystal â sicrhau cynnydd tuag at ein hamcan o gael llwybr arfordirol newydd yng Nghymru.

O ran mynediad i ddŵr mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ddatblygu cynllun strategol newydd yn nodi cyfleoedd newydd posibl i gael mynediad i ddŵr a sut y gallai'r cyfleoedd hynny gael eu darparu. Dylai'r cynllun fod yn barod yn ddiweddarach eleni. Rydym hefyd wedi rhoi £100,000 o arian ychwanegol eleni i Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth i gefnogi amrywiaeth o brosiectau enghreifftiol ar fynediad i ddŵr.

Yn ogystal, rydym wedi rhoi £240,000 ychwanegol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eleni i'w helpu i reoli'r nifer fawr o bobl sy'n ymweld â'r ardaloedd yn well.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi a yw llythyr ei rhagflaenydd dyddiedig 10 Tachwedd 2006 at Brif Swyddogion Cynllunio ac eraill ynghylch TAN 15 Datblygu a Pherygl Llifogydd yn cynrychioli llacio'r rheoliadau sy'n ymwneud â datblygiadau tai newydd? (WAQ50191)

**Jane Davidson:** Nod Llythyr Eglurhad 10 Tachwedd 2006 oedd egluro rolau yn y broses gynllunio ac annog cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng pob parti. Nid yw'n newid nac yn llacio'r polisi sydd wedi'i gynnwys yn TAN 15.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rheoliadau sy'n ymwneud ag asesu perygl llifogydd datblygiadau tai newydd arfaethedig? (WAQ50193)

**Jane Davidson:** Mae'n ofynnol cynnal asesiad canlyniadau llifogydd ym mharth llifogydd C o bob datblygiad newydd sy'n agored iawn i newid. Ceir cyngor pellach yn Nodyn Cyngor Technegol 15, Datblygu a Pherygl o Lifogydd.